| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **16 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – SAVERS, 111-113 STRYD FAWR, PORTHMADOG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Savers, 111-113 Stryd Fawr, Porthmadog LL49 9HH gan Savers Health and Beauty Limited, Hutchinson House, 5 Hester Road, Battersea, London SW11 4AN.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol oddi ar yr eiddo. Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| **Gweithgareddau trwyddedig/ Licensable Activities** | **Oriau/Hours** |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours: *** | Dydd Llun/Monday 08:30-17:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:30-17:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:30-17:30<br>Dydd Iau/Thursday 08:30-17:30<br>Dydd Gwener/Friday 08:30-17:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:30-17:30<br>Dydd Sul/Sunday 10:00-16:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Oddi ar yr Eiddo/ Off Premises | Dydd Llun/Monday 08:30-17:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:30-17:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:30-17:30<br>Dydd Iau/Thursday 08:30-17:30<br>Dydd Gwener/Friday 08:30-17:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:30-17:30<br>Dydd Sul/Sunday 10:00-16:00 |

*** Bwriadir agor o 08:00 hyd 19:00 yn ystod Mehefin , Gorffennaf ac Awst. Bwriedir agor tan 20:00 yn ystod mis Rhagfyr.**

## Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Gweithredir system Teledu Cylch Cyfyng
- Mesurau diogelwch tan mewn lle
- Cedwir cofnodion gwrthod gwerthu alcohol
- Bwriedir gweithredu cynllun 'Challenge 25' a gofyn am brawf oedran, a chardiau adnabod .
- Rhoddir hyfforddiant i staff er mwyn eu cynorthwyo i wrthod gwerthu alcohol i rai nad ydynt yn gallu dangos cerdyn adnabod neu brawf oedran.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelod lleol | E bost - gwrthwynebiad |
| Cyngor Tref | Llythyr – gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | 1 e bost - dim gwrthwynebiad |

**Sylwadau - aelod lleol.**

Gwrthwynebir y cais mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu o

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelu plant rhag niwed

Cyfeirir at y ffaith fod Dwyrain Porthmadog yn dioddef lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol uchaf yn Nwyfor a Meirionnydd; a'i fod o'r farn fod argaeledd alcohol rhad i'w yfed oddi ar yr eiddo yn un o'r prif ffactorau sy'n arwain at hyn.

**Gwrthwynebiad – Cyngor Tref Porthmadog**

Derbyniwyd gwrthwynebiad ar y cais gan Gyngor Tref Porthmadog yn cwestiynu'r angen i gael siop arall yn y Dref sydd yn gwerthu alcohol.

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.